

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Candidate Information Pack

DISGRIFIAD SWYDD

Gweithiwr y Fynwent Achlysurol

Cyfeirnod y Swydd: 17434, 17345, 17436
Dyddiad y Disgrifiad Swydd: Hydref 2020
Fersiwn: 1

Gradd	GR5
Swyddfa/Canolfan	Amlosgfa Glyn-taf
Cyfadran	Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Uwchadran	Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Adran:	Gwasanaethau Profedigaethau
Carfan/Is-garfan	Gweithredol
Yn atebol i	Arweinydd Carfan y Gwasanaethau Profedigaethau a Goruchwyliwr y Fynwent
Swyddi sy'n atebol i'r swydd yma	Neb
Oes angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?	Dim

Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?

Croeso i Gyngor Rhondda Cynon Taf, un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Trwy weithio i ni, bydd eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth er gwell yn ein cymunedau. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.
Rydyn ni'n darparu rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd
Yn ein Strategaeth Llesiant y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, **Cerdyn 'Vivup'** i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau a chynllun **Beicio i'r Gwaith**.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n rhoi modd i gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae'n **cynllun pensiwn** ni yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae cyfleoedd pellach i hybu lles ariannol drwy ddysgu mwy yng ngweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael o 35 diwrnod, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn' (rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau ar gyfer staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Bwriwch olwg ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.

Diben y swydd:

Ymgymryd â thasgau pob dydd sy'n ymwneud â chynnal a chadw mynwent ac amlosgfa, yn unol â chanllawiau/arfer da y diwydiant.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

1. Ar y cyd â'r Goruchwyliwr, byddwch chi'n gyfrifol am nodi safle cywir beddau cyn eu cloddio yn unol â Gweithdrefn Lleoliadau Beddau'r Cyngor, gan wirio'r holl fanylion yn erbyn cofnodion mynwentydd.

2. Nodi'r offer a'r dull cloddio priodol ar y cyd â'r cod ymarfer gweithio diogel ar gyfer mynwentydd.

3. Cloddio beddau yn unol â'r hyfforddiant a dderbynnir gan ofalu bod pob bedd yn dilyn y fanyleb, a'u bod o'r maint a'r dimensiwn cywir a bod yr ategion cywir yn cael eu defnyddio'n briodol.

4. Bod yn gyfrifol am gwblhau gwaith cynnal a chadw ategion a nodi unrhyw ddiffygion a ganfuwyd yn y llyfr cofnodi diffygion.

5. Llenwi taflenni cofnodi diffygion ar gyfer cynnal a chadw peiriannau a rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion a ganfuwyd.

6. Defnyddio offer llaw a/neu offer mecanyddol priodol i ymgymryd â'r gwaith cloddio yn unol â'r cod ymarfer gweithio diogel fel sy'n angenrheidiol ar gyfer tiroedd ac amodau daear gwahanol.

7. Nodi ac ymdrin ag unrhyw beryglon iechyd a diogelwch a rhoi gwybod i'r Rheolwr/Goruchwyliwr am unrhyw rai does dim modd delio â nhw.

8. Ar y cyd â'r Goruchwyliwr, bod yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth claddu'n mynd rhagddo'n ddiogel.

9. Cynrychioli'r Cyngor mewn modd proffesiynol wrth ddelio â'r cyhoedd ac asiantaethau allanol, fel trefnwyr angladdau. Dangos empathi wrth ymwneud ag anghenion y rhai sydd mewn profedigaeth, e.e. wrth ddelio â materion dadleuol fel rheoli traffig a gwrthod ymweld â beddau.

10. Cynorthwyo'r trefnwyr angladdau â strapio'r arch a chynorthwyo'r cludwyr at y bedd gan sicrhau bod yr arch yn cyrraedd ochr y bedd yn ddiogel ac yn cael ei gostwng mewn modd proffesiynol ac urddasol.

11. Yn gyfrifol am ail-lenwi beddau gan sicrhau does dim difrod i'r arch ac yn unol â'r cod ymarfer gweithio diogel ar gyfer mynwentydd.

12. Asesu amodau'r ddaear ar gyfer symud yr ategion yn ddiogel yn unol â'r cod ymarfer gweithio diogel ar gyfer mynwentydd.

13. Sicrhewch fod yr ardal yn lân ac yn daclus a bod y blodau yn cael eu gosod yn ofalus ar y bedd.

14. Cael gwared ar flodau wedi gwywo, a photiau blodau gwag.

15. Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw tiroedd gan gynnwys defnyddio peiriannau, e.e. torwyr gwrychoedd, chwythwyr dail, peiriannau torri gwair.

16. Cynnal archwiliadau safle o feddau a gladdwyd yn ddiweddar gan wirio am ymsuddiant.

17. Cynnal a chadw gwrychoedd, llwyni rhosod a lawntydd mawr.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

18. Casglu sbwriel, dail, gwacáu biniau sbwriel.

19. Sicrhau bod y fynwent a'r adeiladau ategol yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus, ac ymgymryd â dyletswyddau cynnal a chadw, er enghraifft paentio, gosod palmant, mân waith tarmacio a chynnal a chadw'r system ddraenio.

20. Paratoi a defnyddio plaladdwyr yn gywir yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch a phlaladdwyr.

21. Yn gyfrifol am gloi a datgloi gatiau mynediad mynwentydd, adeiladau, eglwysi a chapeli ledled y fwrdeistref.

22. Yn gyfrifol am gloi a datgloi amgaefeydd gwaith lle mae peiriannau ac offer yn cael eu cadw.

23. Defnyddio a storio cemegolion yn ddiogel yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

24. Symud offer cloddio, yn ddiogel ac yn unol â gofynion y DVLA, drwy'i dynnu rhwng safleoedd penodol a gweithredu'r offer.

25. Adeiladu siambrau wedi'u selio yn ôl yr angen yn unol â pholisi beddau bas yr awdurdod.

26. Cyfeirio traffig yn y mynwentydd i'r claddedigaethau perthnasol a chadw ffyrdd yn glir i sicrhau bod modd cynnal angladdau.

27. Datgladdu gweddillion dynol mewn arch ac wedi'u hamlosgi'n ôl yr angen.

28. Cwblhau rhestr wirio ddyddiol wrth ddefnyddio cerbydau, peiriannau neu offer y Cyngor.

29. Cynorthwyo â hyfforddi a mentora staff newydd, staff tymhorol a staff asiantaethau.

30. Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swydd.

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais Cyfarwyddwr y Gwasanaeth neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gan bob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

Yr hyn y byddwch chi'n ei gyflawni:

BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL BYDD Y DISGRIFIAD SWYDD YN NEWID YN SGIL HYNNY.

MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau** a Phrofiad yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma yn llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gyda'r person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

Gwybodaeth / Cymwysterau:

Hanfodol	Dymunol
Trwydded yrru gyfredol a pharodrwydd i gael hyfforddiant tuag at gymhwyster tynnu cerbyd C1 + E	Cymhwyster Plaladdwyr NPTC PA1, PA2 neu PA6A.
Cymhwyster cenedlaethol mewn cloddio beddrodau a gosod ategwaith a pharodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant gloywi (sydd wedi'i achredu gan LANTRA) neu'r gallu i ennill cymhwyster o fewn 12 mis.	Cwrs Defnyddio Peiriannau Asglodi'n Ddiogel.
	Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, a sut i Drawstorri a Thorri Coed hyd at 380mm.

Profiad:

Hanfodol	Dymunol
Gwaith ymarferol yn yr awyr agored yn rhan o garfan.	Profiad o waith mewn mynwent a gweithredu peiriannau ac offer.
Delio â chwsmeriaid	

Sgiliau Cymraeg:

Hanfodol	Dymunol
Cymraeg Lefel 1 ☒ *Bydd raid i bob gweithiwr gymryd rhan mewn sesiwn cyflwyniad i'r Gymraeg i gyrraedd y lefel yma* Cymraeg Lefel 2 ☐ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐	Cymraeg Lefel 2 ☒ Cymraeg Lefel 3 ☐ Cymraeg Lefel 3-5 ☐ Cymraeg Lefel 4 ☐ Cymraeg Lefel 5 ☐

I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.

Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:

Fframwaith Cymwyseddau	**Staff Ategol**
Meysydd Cymhwysedd	**Ymddygiadau a gwerthoedd cymhwysedd**
Gweithio gydag eraill	Gweithio'n dda yn rhan o garfan. Trin eraill â pharch ym mhob achos.
Cyfathrebu'n Effeithiol	Siarad yn glir. Gwirio bod pobl eraill wedi'i ddeall.
Arddangos Gallu Technegol	Cadw offer mewn trefn, gan sicrhau bod yr offer wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Meddu ar y lefelau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen ar gyfer y swydd.
Gweithio'n Ddiogel	Gwybod a dilyn rheolau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol.

	Rhagweld unrhyw risgiau neu ddigwyddiadau, a rhoi gwybod amdanyn nhw i'r bobl gywir yn brydlon.
Bod yn ymroddedig ac yn ddibynadwy	Agwedd gadarnhaol tuag at gyflawni tasgau angenrheidiol. Gweithio ar ei liwt ei hun yn effeithiol heb oruchwyliaeth agos.

Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol

Modd i deithio'n annibynnol rhwng safleoedd.

Modd i weithio pan fo angen.